

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

Mesur Arfaethedig ynghylch Strategaethau ar
gyfer Gofalwyr (Cymru)

Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1
Mai 2010



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

I gael rhagor o gopiâu caled o'r ddogfen hon cysylltwch â:
Y Swyddfa Ddeddfwriaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8147
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Swyddfadeddfwriaeth@cymru.gsi.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

Mesur Arfaethedig ynghylch Strategaethau ar
gyfer Gofalwyr (Cymru)

Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1
Mai 2010



Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5

Cafodd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 ei sefydlu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ystyried deddfwriaeth a fyddai'n cael ei chyflwyno i'r Cynulliad, yn enwedig gan Lywodraeth Cymru, ac i gyflwyno adroddiadau arni. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cael ystyried deddfwriaeth heblaw deddfwriaeth y Llywodraeth a chyflwyno adroddiadau arni, fel y bo'n briodol.

Pwerau

Cafodd y Pwyllgor ei sefydlu ar 4 Chwefror 2009 yn un o bwyllgorau deddfwriaeth y Cynulliad. Mae ei bwerau wedi'u nodi yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn enwedig Reolau Sefydlog 10, 22 a 23. Mae'r rhain ar gael yn www.cynulliadcymru.org

Aelodau'r Pwyllgor

<i>Aelod o'r Pwyllgor</i>	<i>Plaid</i>	<i>Etholaeth neu Ranbarth</i>
Mark Isherwood (Cadeirydd)	Y Ceidwadwyr Cymreig	Gogledd Cymru
Eleanor Burnham	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	Gogledd Cymru
Alun Davies	Llafur	Canolbarth a Gorllewin Cymru
Andrew Davies	Llafur	Gorllewin Abertawe
Darren Millar	Y Ceidwadwyr Cymreig	Gorllewin Clwyd
Leanne Wood	Plaid Cymru	Canol De Cymru

Rhestr o adroddiadau perthnasol a gyhoeddwyd

<i>Teitl yr Adroddiad</i>	<i>Dyddiad cyhoeddi</i>
Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol) 2009	Ebrill 2009

Mae pob adroddiad pwyllgor blaenorol ar gael yn www.cynulliadcymru.org

Cynnwys

Argymhellion y Pwyllgor.....	5
1. Rhagymadrodd	8
2. Y Cefndir.....	10
3. Yr Egwyddorion Cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth.....	12
4. Adran 1 - Gofalwyr	16
5. Adran 2 - Dyletswydd i lunio strategaeth	21
6. Adran 3 - Gwybodaeth briodol a chyngor priodol.....	28
7. Adran 4 - Ymgynghori.....	32
8. Adran 5 - Darpariaeth bellach ynghylch strategaethau	35
9. Adran 6 - Cyflwyno strategaethau drafft i Weinidogion Cymru...	40
10. Adran 7 - Cyfle i'r cyhoedd gael gweld strategaeth.....	43
11. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth	45
12. Y Goblygiadau Ariannol	48
Tystion	51
Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig.....	53

Argymhellion y Pwyllgor

Mae'r adroddiad yn amlinellu canfyddiadau gwaith craffu Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 yng Nghyfnod 1 ar y Mesur arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru).

Cytunodd y Pwyllgor ag egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig a chytuno bod angen deddfu. Roedd y dystiolaeth yn eglur o blaid yr angen am strategaethau ar gyfer gofalwyr, ac eto i gyd, fe gododd y dystiolaeth hefyd nifer o faterion i'w hystyried ymhellach. O ganlyniad i hynny, mae'r Pwyllgor wedi gwneud nifer o argymhellion i'r Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, ac mae'r manylion i'w gweld isod:

Argymhelliad 1: Mae'r Pwyllgor yn nodi ac yn derbyn barn y Dirprwy Weinidog bod gofalwyr ifanc wedi'u cynnwys yn y diffiniad y manylir arno yn adran 1. Er hynny, ar sail y dystiolaeth a gafwyd mae'r Pwyllgor yn argymhell bod gofalwyr ifanc yn haeddu cyfeiriad pendant yn y diffiniad o ofalwyr.

Argymhelliad 2: Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth am y rhan bwysig sy'n cael ei chwarae gan ofalwyr eilaidd, sef pobl ifanc yn aml. I gefnogi'r rhan sy'n cael ei chwarae gan ofalwyr mewn rôl eilaidd, mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r diffiniad o ofalwr gynnwys cyfeiriad at brif ofalwyr a gofalwyr eilaidd.

Argymhelliad 3: Nid yw'r Pwyllgor yn credu bod adran 2(1)(c) yn rhoi digon o fanylion ar wyneb y Mesur arfaethedig ynghylch sut y dylid ymgynghori. Mae'r Pwyllgor yn argymhell mewn nosod y gwelliant canlynol (neu eiriau i'r un perwyl) yn y Mesur arfaethedig yn adran 2, tudalen 2, llinell 26 ar ôl 'gofalwyr', rhwch 'a'u bod yn rhoi sylw dyladwy i'r ymatebion ymgynghori'.

Argymhelliad 4: Mae'r Pwyllgor yn derbyn pryderon y Dirprwy Weinidog ynghylch effaith gosod dyletswyddau ar yr holl 'awdurdodau perthnasol' o'r dechrau. Serch hynny, clywodd y Pwyllgor gan lawer o'r tystion mor bwysig yw gwasanaethau addysg wrth gefnogi gofalwyr ifanc ac mae'n argymhell yn gryf y dylai gwasanaethau addysg gael eu cynnwys yn y set gyntaf o reoliadau.

Argymhelliad 5: Mae'r Pwyllgor yn argymell gwella'r Mesur arfaethedig er mwyn caniatáu'r gallu i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, i ychwanegu at y rhestr o 'awdurdodau perthnasol' y manylir arni o dan adran 2(3).

Argymhelliad 6: Nid yw'r Pwyllgor yn credu bod y diffiniad o 'gwybodaeth briodol a chyngor priodol' yn ddigonol ac felly mae'n argymell gwella adran 3 i sicrhau bod diffiniad mwy cynhwysfawr o "priodol" yn cael ei ddarparu.

Argymhelliad 7: Mae'r Pwyllgor yn credu nad yw'r ddyletswydd i ymgynghori â gofalwyr yn ddigon cryf ac felly mae'n argymell gwneud gwelliant i linell 21 o adran 4, i ddileu'r geiriau ' , neu y caniateir,'.

Argymhelliad 8: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai adran 4 gael ei gwella ymhellach i fewnosod safon ymgynghori ofynnol i'w rhagnodi gan Weinidogion Cymru yn y Mesur arfaethedig. Gallai hyn ddiffinio'r ymgynghori a'r gofyniad bod rhaid rhoi adborth ar yr ymatebion a geir. Mae'r Pwyllgor yn argymell mewnosod y gwelliant canlynol (neu eiriau i'r un perwyl) yn adran 4 o'r Mesur arfaethedig:

“Caiff yr ymgynghori gynnwys cyfarfodydd â rhanddeiliaid, arolwg ymhlith gofalwyr a'r cynrychiolwyr a defnyddwyr gwasanaethau (ond nid yw'n gyfyngedig i'r rhain).”

Argymhelliad 9: Nid yw'r Pwyllgor yn credu mai'r GIG ddylai fod yn awdurdod arweiniol bob tro ac y dylai hyn gael ei gytuno'n lleol neu ei ddynodi gan Weinidogion Cymru. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Mesur arfaethedig yn caniatáu i Weinidogion Cymru "ddynodi corff GIG yn gorff arweiniol". Serch hynny, does dim darpariaeth i Weinidogion Cymru ddynodi awdurdod arweiniol arall pan fo angen hynny. Mae'r Pwyllgor yn argymell ychwanegu darpariaeth at adran 5(3) i ganiatáu i Weinidogion Cymru ddynodi unrhyw "awdurdod perthnasol" yn awdurdod arweiniol.

Argymhelliad 10: Mae'r Pwyllgor yn derbyn mai i Weinidogion Cymru y dylai'r strategaethau gael eu cyflwyno. Serch hynny, mae'r Pwyllgor yn argymell cynnwys safon ddisgwyliadau

ofynnol yn y rheoliadau, a ddylai gynnwys cynllun gweithredu a chynllun adolygu

Argymhelliad 11: Mae'r Pwyllgor yn credu mai'r swm lleiaf posibl o waith hybu'r strategaeth sy'n cael ei ganiatáu gan adran 7 ac nad yw adran 7 yn gosod rhwymedigaeth ar yr awdurdodau i hybu a mynegi'r strategaeth i ofalwyr. Mae'r Pwyllgor yn argymhell gwella'r adran hon drwy gyfrwng gwelliant priodol i sicrhau bod y strategaethau ar gael yn eang mewn modd hygyrch, a hynny o fewn amserlen sy'n briodol i anghenion y gofalwr.

Argymhelliad 12: Mae'r Pwyllgor yn teimlo bod yna gryn dipyn o botensial i'r Mesur arfaethedig gael ei ddiwygio drwy gyfrwng rheoliadau; gan hynny mae'n argymhell y dylai'r set gyntaf o reoliadau i gael ei phasio o dan bob adran ddod o dan y weithdrefn gadarnhaol.

1. Rhagymadrodd

1. Ar 25 Ionawr 2010, cyflwynodd y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, Gwenda Thomas AC (“y Dirprwy Weinidog”), y Mesur arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) (“y Mesur arfaethedig”) gan wneud datganiad¹ yn y cyfarfod llawn².

2. Yn ei gyfarfod ar 19 Ionawr 2010, cytunodd Pwyllgor Busnes y Cynulliad Cenedlaethol y dylid cyfeirio'r Mesur arfaethedig at Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 (“y Pwyllgor”) er mwyn i'r egwyddorion cyffredinol gael eu hystyried (Cyfnod 1), yn unol â Rheol Sefydlog 23.21. Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd fod rhaid i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar y Mesur arfaethedig erbyn 7 Mai 2010 fan bellaf. Cytunodd y Pwyllgor Busnes wedyn ar ddau estyniad pellach o wythnos, a'i gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad erbyn 21 Mai 2010.

Telerau'r gwaith craffu

3. Yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor ar 27 Ionawr 2010, cytunwyd ar y fframwaith canlynol ar gyfer craffu ar egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig:

Ystyried:

i) yr angen am Fesur arfaethedig i gyflawni'r amcanion isod:

- Sicrhau bod gan ofalwyr y wybodaeth gywir ar yr adeg gywir i'w cynorthwyo gyda'u swyddogaethau gofalu.
- Sicrhau bod asiantaethau statudol yn ymgysylltu'n briodol â gofalwyr fel partneriaid i ddarparu gofal, gan eu cynnwys ar bob lefel o asesu, darparu a gwerthuso trefniadau gofal.

ii) a yw'r Mesur arfaethedig yn cyflawni'r amcanion a nodwyd;

iii) prif ddarpariaethau'r Mesur arfaethedig ac a ydynt yn addas ar gyfer cyflawni amcanion y Mesur;

iv) rhwystrau posibl rhag gweithredu'r prif ddarpariaethau ac a yw'r Mesur arfaethedig yn eu hystyried;

¹ Cofnod y Trafodion, 25 Ionawr 2010, ar gael yn: <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-chamber/bus-chamber-third-assembly-rop.htm?act=dis&id=163734&ds=1/2010#4> (DS: oni nodir yn wahanol, cyfeiriadau at drafodion Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 yw'r cyfeiriadau dilynol yn yr adroddiad hwn at Gofnod y Trafodion.)

² Cyfarfod llawn o Gynulliad Cenedlaethol Cymru

v) barn y rhanddeiliaid a fydd yn gorfod gweithio gyda'r trefniadau newydd.

Ymagwedd y Pwyllgor

4. Cyhoeddodd y Pwyllgor alwad gyffredinol am dystiolaeth gan wahodd y rhanddeiliaid allweddol, yn bennaf ym maes iechyd, llywodraeth leol a mudiadau i ofalwyr, i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i fwydo gwaith y Pwyllgor. Mae rhestr o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael ar dudalen 53.
5. Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan nifer o dystion, ac mae'r manylion ar gael ar dudalen 51.
6. Mae'r adroddiad canlynol yn cyflwyno'r casgliadau a'r argymhellion y daeth y Pwyllgor iddyn nhw ar sail y dystiolaeth a ddaeth i law yn ystod eu gwaith. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu.

2. Y Cefndir

Cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol i wneud y Mesur arfaethedig

7. Mae'r prif bŵer i alluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud Mesur mewn perthynas â strategaethau ar gyfer gofalwyr wedi'i gynnwys ym mater 15.9 ym Maes 15 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Cafodd mater 15.9 ei ychwanegu gan *Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol) 2009*.³

Memorandwm Esboniadol

8. Mae'r Memorandwm Esboniadol⁴ sy'n cyd-fynd â'r Mesur arfaethedig yn dweud:

“Diben y Mesur hwn yw galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i ddeddfu i gyflwyno gofyniad newydd ar y GIG ac Awdurdodau Lleol yng Nghymru (“yr awdurdodau perthnasol”) i weithio mewn partneriaeth i baratoi, cyhoeddi a gweithredu strategaeth ar y cyd mewn perthynas â gofalwyr.

Bydd y strategaeth yn darparu ar gyfer darparu gwybodaeth a chynghor i ofalwyr ac ar gyfer ymgynghori effeithiol gan yr awdurdodau perthnasol â gofalwyr wrth wneud penderfyniadau am ddarparu gwasanaethau i ofalwyr neu i'r person y gofelir amdano, neu ar gyfer y naill neu'r llall ohonynt.”⁵

9. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio mai gwella bywydau gofalwyr yn y meysydd allweddol canlynol yw bwriad cyffredinol y Mesur arfaethedig:

“sicrhau bod gan ofalwyr yr wybodaeth iawn ar yr adeg iawn i'w cefnogi yn eu rôl ofalu. Tanlinellodd Strategaeth Cynhalwyr Cymru – Cynllun Gweithredu (2000) fod angen darparu i ofalwyr wybodaeth hawdd ei chael, perthnasol a ffeithiol gywir, yn ogystal â chydabod yr angen am olwg tymor hwy ar

³ Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol) 2009

Ar gael yn <http://www.cynulliadcymru.org/lco-ld7322-e.pdf>

⁴ Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Memorandwm Esboniadol ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru)*

⁵ Memorandwm Esboniadol, paragraff 1.1

anghenion gofalwyr o ran gwybodaeth. Byddai'r math o wybodaeth y gall fod angen amdani ar ofalwyr yn cynnwys gwybodaeth am fudd-daliadau; gwybodaeth am ddarpariaethau ym maes cyflogaeth, gan gynnwys gweithio oriau hyblyg; gwybodaeth am yr hawl i gael asesiad o anghenion; gwybodaeth am y gwasanaethau cymdeithasol sydd ar gael iddynt; gwybodaeth am gynllunio gofal ar gyfer y person y gofelir amdano ac am reoli ei feddyginiaethau; gwybodaeth am ei drafod a'i godi'n ddiogel; a gwybodaeth am faterion eraill sy'n ymwneud â gofal y person y gofelir amdano.

- sicrhau bod asiantaethau statudol yn ymgynghori'n briodol â gofalwyr fel partneriaid yn y gofal a ddarperir, gan eu cynnwys ar bob lefel o'r gwaith asesu, cyflawni a gwerthuso'r trefniadau gofal.”⁶

10. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn amlinellu'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth sydd wedi'u cynnwys yn y Mesur arfaethedig. O ran pob un o'r pwerau hyn, mae'r sail resymegol dros gymhwyso'r is-ddeddfwriaeth yn dibynnu ar yr angen i osgoi manylion amhriodol ar wyneb y Mesur ac i roi hyblygrwydd i ddiwygio'r mathau o wybodaeth y mae'n rhaid trefnu eu bod ar gael i ofalwyr, a'r manylion sydd i'w cynnwys yn y strategaeth, yn ôl yr angen.

⁶ Memorandwm Esboniadol, paragraff 1.1

3. Yr Egwyddorion Cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth

Y cefndir

11. Diben y Mesur arfaethedig yw galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddeddfu i gyflwyno gofyniad newydd ar y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) a'r awdurdodau lleol yng Nghymru ("yr awdurdodau perthnasol") i weithio mewn partneriaeth i baratoi, cyhoeddi a gweithredu cyd-strategaeth mewn perthynas â gofalwyr.

Tystiolaeth y Tystion

12. Cadarnhaol oedd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth a gafwyd o ran egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig. Roedd y mwyafrif o'r tystion yn cytuno bod angen deddfu i gyflwyno'r gofyniad bod rhaid i'r awdurdodau perthnasol weithio mewn partneriaeth i gynhyrchu strategaethau gofalwyr.

13. Dywedodd Cynhalwyr Cymru fod y Mesur arfaethedig yn hanfodol gan gyfeirio at y dystiolaeth a gyflwynwyd ganddyn nhw wrth i waith craffu gael ei wneud ar *Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol) 2009*⁷ ynglŷn â gofalwyr, pan ddywedon nhw "we thought that there was a gap in the legislation, particularly in relation to the engagement of the NHS. So, we support it wholeheartedly and think that it is necessary."⁸

14. Cafwyd cefnogaeth debyg gan Gydffederasiwn GIG Cymru a ddywedodd eu bod yn cefnogi nodau cyffredinol y Mesur arfaethedig gan gredu ei bod yn dda gweld "recognition of this hugely valued group of people"⁹

15. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) eu bod nhw'n credu "from the beginning, in dialogue with our members, that there is a need for this proposed Measure."¹⁰

⁷ Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol) 2009

Ar gael yn <http://www.cynulliadcymru.org/lco-ld7322-e.pdf>

⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 129, 3 Mawrth 2010

⁹ *ibid*, paragraff 7

¹⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 7, 10 Mawrth 2010

16. Roedd grwpiau a oedd yn eiriol dros blant hefyd yn cefnogi'r Mesur arfaethedig wrth roi cymorth i ofalwyr ifanc. Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru fod angen y ddeddfwriaeth a bod y Mesur arfaethedig yn gyfle "to incorporate the United Nations Convention on the Rights of the Child [UNCRC] as far as young carers are concerned"¹¹

17. Roedd Barnardo's Cymru hefyd yn ategu bod angen deddfwriaeth ar ofalwyr, gan ddweud:

"The short answer is that we do believe that there is a need for the proposed Measure and its overall aims..... We welcome the initial point of information, advice and the development of a strategy."¹²

18. Serch hynny, fe gododd rhai o'r tystion bryderon, er eu bod yn cefnogi egwyddorion y ddeddfwriaeth, sef pryderon y byddai effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth yn dibynnu'n fawr ar y manylion yn y rheoliadau a fyddai'n codi o'r Mesur arfaethedig. Dywedodd Cynghrair Niwrolegol Cymru:

"We endorse the aims of the legislation fully. It is very difficult to argue against it; it is a comparatively short enabling piece of legislation and certainly the Wales Neurological Alliance supported the LCO prior to this and gave evidence on that. However, we generally welcome this proposed Measure at the moment, although obviously the proof of the pudding is in the eating—in this case, the regulations that will follow."¹³

19. Er bod CLILC yn croesawu'r dyletswyddau a fyddai'n cael eu gosod ar y GIG a'r effaith ar gydweithio, roedden nhw'n teimlo bod gofyniad i gynhyrchu strategaeth arall yn mynd yn groes i gytundeb ar resymoli cynlluniau, gan ddweud:

"...we are disappointed that a Measure is being used to prescribe a requirement for the production of another strategy. This contravenes directly the recently signed 'New understanding' between National and Local Government, which

¹¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 8, 24 Chwefror 2010

¹² Cofnod y Trafodion, paragraff 111, 10 Mawrth 2010

¹³ Cofnod y Trafodion, paragraff 100, 24 Chwefror 2010

recognises the primacy of the four statutory plans following plan rationalisation.”¹⁴

20. Cyfeiriodd rhai o’r tystion hefyd at y cyfle yr oedd y ddeddfwriaeth hon yn ei chynnig i gydgrynhoi deddfau sydd eisoes yn bod ynglŷn â gofalwyr. Dywedodd Barnardo’s Cymru:

“There has been a plethora of carers legislation for England and Wales over the last 15 years, notably from 1995. We think that there is a great opportunity to clarify what the Welsh Assembly Government can do to provide good, appropriate services for carers around Wales.”¹⁵

21. Roedd Cynhalwyr Cymru’n credu bod yna fanteision pendant o gydgrynhoi’r ddeddfwriaeth bresennol. Er enghraifft, awgrymodd Cynhalwyr Cymru set o reoliadau i gynnwys yr holl hawliau sydd gan ofalwyr ar hyn o bryd o dan y tair Deddf gofalwyr a’r Mesur arfaethedig newydd.

“There are definite advantages to consolidating the existing carers Acts, one of which would be that a set of regulations would be issued that would cover all the rights that carers currently have under the three existing carers Acts plus the new proposed Measure. That might make it easier for people to understand.”¹⁶

22. Serch hynny, cydnabu Cynhalwyr Cymru hefyd y gallai cydgrynhoi’r ddeddfwriaeth bresennol arwain at ohirio mawr cyn gweithredu.

Tystiolaeth y Dirprwy Weinidog

23. O ran yr angen i gyflwyno deddfwriaeth, esboniodd y Dirprwy Weinidog mai cefnogi gofalwyr a’u helpu i gadw eu hiechyd a’u llesiant eu hunain oedd bwriad y Mesur hwn. Dywedodd y Dirprwy Weinidog:

“Mae’r Mesur arfaethedig yn ysgogiad pwysig ac amserol i wella cymorth ar gyfer llawer o ofalwyr yng Nghymru.”¹⁷

¹⁴ CS7, Tystiolaeth Ysgrifenedig

¹⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 111, 10 Mawrth 2010

¹⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 190, 3 Mawrth 201

¹⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 9, 10 Chwefror 2010

24. Esboniodd y Dirprwy Weinidog y byddai cydgrynhoi'r ddeddfwriaeth bresennol yn llyncu llawer o amser a hefyd:

“Even if consolidation had been a feasible option, the extent of the work involved in disapplying aspects of existing carers’ legislation, in so far as they relate to Wales, and drafting them into the proposed Measure would have significantly delayed the development and introduction of this important piece of legislation.”¹⁸

Ein barn ni

Mae'r Pwyllgor yn cytuno ag egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig ac yn nodi'r gefnogaeth eang i'r Mesur arfaethedig yn y dystiolaeth a ddaeth i law.

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod tystion wedi mynegi pryderon ynghylch cydgrynhoi deddfwriaeth, ac mae'n credu y byddai cydgrynhoi'r ddeddfwriaeth bresennol ynghylch gofalwyr wedi sicrhau bod y broses yn haws ei defnyddio. Er hynny, mae'r Pwyllgor yn derbyn barn y Dirprwy Weinidog y byddai cydgrynhoi'r ddeddfwriaeth bresennol wedi gohirio'r gweithredu i roi nodau'r Mesur hwn ar waith.

¹⁸ Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 Papur LC5(3)-08-10 Papur 1

4. Adran 1 – Gofalwyr

Y cefndir

25. Mae adran 1 o'r Mesur arfaethedig yn diffinio "gofalwr" a'r "person y gofelir amdano".
26. Diffinnir gofalwr fel rhywun sy'n rhoi neu sy'n bwriadu rhoi cyfran arwyddocaol o ofal, yn rheolaidd, i blentyn anabl neu i unigolyn 18 oed neu drosodd.
27. Nid yw'n cynnwys gofalwyr sy'n cael eu cyflogi neu sy'n cyflawni eu dyletswyddau fel gofalwyr ar sail ffurfiol drwy gyfrwng cytundeb ffurfiol. Mae'r rhai sy'n gwirfoddoli fel gofalwyr, mewn elusen er enghraifft, yn cael eu hepgor o'r diffiniad hefyd.
28. Diffinnir y person y gofelir amdano fel person sy'n cael gofal gan ofalwr, neu y bwriedir iddo gael gofal gan ofalwr.

Tystiolaeth y tystion

29. Roedd gan rai tystion bryderon nad oedd yr adran hon yn cyfeirio'n unswydd at ofalwyr ifanc.
30. Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru "I would far prefer to see young carers included on the face of this proposed Measure."¹⁹ Ymhelaethodd y Comisiynydd ar hyn drwy ddweud:
- "There stands to be more scope for identification if they [young carers] are included, because it will focus people's minds, whether they work in health, in local authorities, or wherever. They need to start to think through their responsibilities and pick up on the fact that they have a responsibility to children in the family as well as to the person being cared for. I do not think—in fact, I know that that is not happening sufficiently well."²⁰
31. Dywedodd Cydffederasiwn GIG Cymru eu bod yn gofidio'n fawr fod bywydau gofalwyr ifanc yn cael eu cymryd oddi arnyn nhw:

¹⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 26, 24 Chwefror 2010

²⁰ *ibid*, paragraff 43

“because they do not have the educational opportunities that they should have we need to reinforce what we can do for children and young people, through legislation, to make their opportunities equal to those of their peers that do not have a caring role.”²¹

32. Er bod Cydffederasiwn GIG Cymru yn derbyn na fyddai cyfeirio'n benodol at ofalwyr ifanc ar wyneb y Mesur arfaethedig yn golygu y byddai sylw'n cael ei roi i'r holl broblemau y mae gofalwyr ifanc yn eu hwynebu, roedden nhw'n credu “it would help to ensure some kind of resolution and would allow them to have lives.”²²

33. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig nhw dywedodd Plant yng Nghymru:

“Children in Wales would want to see the development of a fully coordinated service that considers the needs of the carer whatever age, that is able to bring together services for both children and adults to provide the family with the support they need based on a holistic assessment. If the measure includes young carers explicitly it would provide the opportunity to deliver holistic, seamless services to all carers.”²³

34. Roedd Gweithredu dros Blant yn credu y byddai cynnwys gofalwyr ifanc ar wyneb y Mesur arfaethedig yn helpu o ran cyflwyno gwybodaeth, cyngor a gwasanaethau gwell a mwy cyson ar gyfer gofalwyr ifanc a'r person y gofelid amdano ac yn gwella'r gwaith cydweithredol lleol. Dywedodd Gweithredu dros Blant:

“We are concerned that the Measure, if it does not refer to young carers, and if the regulations do not require the development of a Young Carers Strategy as a subset of a local Carers Strategy, may fail to secure significant improvements in outcomes for young carers.”²⁴

35. Er hynny, teimlai rhai tystion y byddai'r Mesur arfaethedig fel yr oedd wedi'i ddrafftio yn cynnwys gofalwyr ifanc ac y gallai cyfeirio'n unswydd atyn nhw olygu gwahaniaethu yn erbyn grwpiau eraill.

²¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 21, 3 Mawrth 2010

²² *ibid*, paragraff 23

²³ CS17, Tystiolaeth Ysgrifenedig

²⁴ CS21, Tystiolaeth Ysgrifenedig

36. Doedd Barnardo's Cymru ddim yn credu bod angen cyfeirio at ofalwyr ifanc ar wyneb y Mesur arfaethedig:

“if you put young carers on there, you will need to list all the other carers that might be seen as providing different levels of care or as having different needs. You understand that the risk with listing things is that you will miss someone off and they would therefore be excluded. We would probably like to see written on the face of the proposed Measure that it relates to a ‘carer of any age’, rather than ‘carer’, so that it specifies ‘any age’.”²⁵

37. Er hynny, roedd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS Cymru) yn credu y dylid cyfeirio'n unswydd at ofalwyr ifanc a hynny oherwydd “a very different legal situation surrounding children, as well as their different needs” ac nad oedd awgrym Barnardo's yn rhoi digon o bwyslais ar ofalwyr ifanc. Awgrymodd ADSS Cymru ddefnyddio'r term “young carers and carers of all ages” ac y gallai rhagor o eglurhad gael ei roi mewn canllawiau.²⁶

38. Teimlai CLILC y dylai anghenion gofalwyr ifanc ac anghenion grwpiau eraill gael sylw drwy ddulliau eraill megis rheoliadau. Dywedodd CLILC fod gan awdurdodau lleol Cymru safbwyntiau gwahanol a bod CLILC wedi cymryd consensws, sef:

“Generally, we feel that the proposed Measure should confine itself to high-level principles in law and that regulations and other strategies are the best vehicles for making sure that the needs of particular cohorts of the population are met. Therefore, we took the consensus view that this was for all carers, and that the needs of specific routes could be picked up through other mechanisms.”²⁷

39. Ategodd Cynhalwyr Cymru y farn hon, gan ddweud:

“one of the pluses of the proposed Measure as currently drafted is that it does not focus only on adult carers. The

²⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 125, 10 Mawrth 2010

²⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 103, 17 Mawrth 2010

²⁷ Cofnod y Trafodion, paragraffau 25 a 26, 10 Mawrth 2010

definition of ‘carer’ removes the age limit, and we think that that is a big step forward.”²⁸

40. Wrth drafod y grwpiau a fyddai’n dod o dan y Mesur arfaethedig, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan bobl ifanc a chanddyn nhw gyfrifoldebau fel gofalwyr. Nodwyd nad y person ifanc fyddai’r prif ofalwr yn aml, ond mewn sefyllfa lle ceir brodyr neu chwiorydd a/neu rieni dibynnol fe allai hynny olygu bod y person ifanc yn ymgymryd a rôl fel gofalwr eilaidd. Roedd y gofalwyr ifanc yn teimlo ei bod yn bwysig cydnabod y rhan sy’n cael ei chwarae gan ofalwyr eilaidd. Dywedodd un gofalwr ifanc, Hannah Spokes:

“I personally do not get a lot of information because it all goes through my mum because she is the parent.”²⁹

41. Yn ôl y diffiniad yn y Mesur arfaethedig, nododd y Pwyllgor y byddai angen i ofalwr fod yn “unigolyn sy’n darparu cyfran sylweddol o ofal yn rheolaidd” ac felly y byddai angen i ofalwr eilaidd ddangos lefel y gofal y byddai’n ei darparu er mwyn bodloni’r diffiniad. Cyfeiriodd y Pwyllgor at dystiolaeth y Pwyllgor Deddfwriaeth a ystyriodd *Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol) 2009* ar 11 Chwefror 2009, lle derbyniwyd bod yr hyn sy’n “sylweddol ac yn rheolaidd” yn dibynnu ar amgylchiadau’r achos o dan sylw.

Tystiolaeth y Dirprwy Weinidog

42. Tanlinellodd y Dirprwy Weinidog fod gofalwyr ifanc wedi’u cynnwys yn rhychwant y Mesur arfaethedig. Y nod oedd ganddi, meddai, oedd i’r awdurdodau perthnasol gynnwys pennod ychwanegol ar ofalwyr ifanc yn y strategaeth, er mwyn rhoi’r ffocws arnyn nhw’n llwyr. Dywedodd y Dirprwy Weinidog:

“I am quite clear that young carers fall within the scope of this proposed Measure. Indeed, it covers carers of all ages who fall within the definition of “carer” in section 1 of the proposed Measure. There is, therefore, no need, and no drafting justification, for young carers to be explicitly referred to on the face of the Measure.”³⁰

43. Esboniodd papur ysgrifenedig y Dirprwy Weinidog:

²⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 142, 3 Mawrth 2010

²⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 191, 17 Mawrth 2010

³⁰ Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 Papur LC5(3)-08-10 Papur 1, 29 Ebrill 2010

“What I intend is that the regulation making powers in section 5 will be used to require relevant authorities to ensure that appropriate consultation arrangements are in place for young carers and that there will be a separate chapter of the strategy focussing on young carers, their issues and priorities and how these are to be addressed.”³¹

Ein barn ni

Argymhelliad 1: Mae'r Pwyllgor yn nodi ac yn derbyn barn y Dirprwy Weinidog bod gofalwyr ifanc wedi'u cynnwys yn y diffiniad y manylir arno yn adran 1. Er hynny, ar sail y dystiolaeth a gafwyd mae'r Pwyllgor yn argymhell bod gofalwyr ifanc yn haeddu cyfeiriad pendant yn y diffiniad o ofalwyr.

Argymhelliad 2: Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth am y rhan bwysig sy'n cael ei chwarae gan ofalwyr eilaidd, sef pobl ifanc yn aml. Nododd y Pwyllgor y gall 20 awr o ofal yn achos oedolyn fod yn sylweddol ac yn rheolaidd, yn yr un modd gellid barnu bod 5 awr o ofal gan ofalwr ifanc, boed yn brif ofalwr ynteu'n ofalwr eilaidd, fod yn sylweddol ac yn rheolaidd hefyd. I gefnogi'r rhan sy'n cael ei chwarae gan ofalwyr mewn rôl eilaidd, mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r diffiniad o ofalwr gynnwys cyfeiriad at brif ofalwyr a gofalwyr eilaidd.

³¹ Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 Papur LC5(3)-08-10 Papur 1, 29 Ebrill 2010

5. Adran 2 – Dyletswydd i lunio strategaeth

Y cefndir

44. Mae adran 2 o'r Mesur arfaethedig yn darparu i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, ei gwneud yn ofynnol i ddau neu fwy o awdurdodau perthnasol baratoi a chyhoeddi strategaeth yn nodi sut y byddan nhw'n gweithio gyda'i gilydd i ddarparu gwybodaeth a chynghor sy'n briodol i ofalwyr.

45. Yn ychwanegol, rhaid i'r strategaeth nodi sut y bydd yr awdurdodau perthnasol yn sicrhau, cyn iddyn nhw wneud cyfarwyddiadau cyffredinol eu natur ynghylch darparu gwasanaethau ar gyfer gofalwyr a'r person y maen nhw'n gofalu amdano, eu bod yn ymgynghori â gofalwyr cyn gwneud penderfyniadau o'r fath.

Tystiolaeth y dystion

46. Roedd y dystion yn gefnogol at ei gilydd i osod dyletswydd ar yr awdurdodau lleol a'r GIG i gynhyrchu strategaeth gofalwyr. Rhoddodd y dystion groeso yn arbennig i osod dyletswydd ar y GIG. Roedd llawer o'r dystiolaeth a ddaeth i law yn dal bod yna farn mai adrannau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol oedd yn 'gyfrifol' am ofalwyr ac mai cyfyngedig oedd y cymorth o du'r GIG. Dywedodd Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro:

“so far it has been very difficult to get ‘health’ (both NHS and LHB) involved with and engaged in understanding carers issues, working in partnership with carers and carers organisations to support carers.”³²

47. Teimlai CLILC hefyd fod y cyfrifoldeb dros ofalwyr ar hyn o bryd yn gorffwys ar yr awdurdodau lleol yn unig, gan ddweud:

“There is currently no duty on the NHS, and we have said consistently that we feel that there should be. Given that we are trying to promote partnership working in a tangible way in Wales, we feel that it is right that a duty should be placed on those organisations.”³³

³² CS11, Tystiolaeth Ysgrifenedig

³³ Cofnod y Trafodion, paragraff 28, 10 Mawrth 2010

48. Roedd Cynhalwyr Cymru'n teimlo'n bur gryf y dylai dyletswydd gael ei gosod ar y GIG, gan ddweud:

"There needs to be a statutory duty on the NHS and one mechanism by which we can get most effective and quick engagement from it is to make it the lead organisation. Unless there is a lead organisation, they will not take this as seriously as we think it needs to be taken."³⁴

49. Roedd Cydffederasiwn GIG Cymru hefyd yn credu y byddai dyletswydd o fantais gan ddweud "within the NHS family, we need to understand that we need to work together. If the legislation does that, yes, I think that it is important."³⁵

50. Dywedodd Stonewall Cymru, yn eu tystiolaeth ysgrifenedig nhw:

"We consider this requirement essential to ensuring that carers' strategies address the real needs of carers, rather than those considered to be carers' needs by responsible authorities."³⁶

51. Cafodd nifer o safbwyntiau eu mynegi gan y tystion ynghylch y gofyniad sydd i'w osod ar yr awdurdodau yn y Mesur arfaethedig i sicrhau bod yr awdurdodau'n ymgynghori â gofalwyr cyn gwneud penderfyniadau cyffredinol eu natur ynghylch darparu gwasanaethau i ofalwyr neu ar gyfer gofalwyr a'r personau y maen nhw'n gofalu amdany'n nhw neu.

52. Roedd yna gefnogaeth eang i'r ddyletswydd i ymgynghori, a phwysleisiodd llawer o'r ymatebwyr mor bwysig oedd hynny i ofalwyr. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig nhw, dywedodd Age Concern Cymru/Help the Aged yng Nghymru:

"we welcome the intention to place duties on health bodies and local authorities to consult with carers before decisions are made about service provision. This will be an improvement as we regularly hear frustrations that people are only consulted after they feel the decisions have already been made."³⁷

53. Er bod y ddyletswydd i ymgynghori'n cael ei chroesawu, cafodd pryderon eu codi ynghylch dilysrwydd y broses ymgynghori. Pwysleisiodd Barnardo's Cymru nad un digwyddiad unigol oedd

³⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 174, 3 Mawrth 2010

³⁵ *ibid*, paragraff 31

³⁶ CS16, Tystiolaeth Ysgrifenedig

³⁷ CS23, Tystiolaeth Ysgrifenedig

ymgyngori i fod ond y dylai fod yn rhan o berthynas hirdymor, gan awgrymu:

“the words *‘at each point of review’* should be added to the end of sections 2(1)(b) and 2(1)(c) of the proposed Measure. This would mean that it would not be a single stand-alone consultation and strategy, but a strategy that would need continual revisiting and reviewing, and carers would need to be involved in that process.”³⁸

54. Awgrymodd Cynghrair Niwrolegol Cymru gynnwys safon ymgynghori ofynnol ar wyneb y Mesur, gan ddweud:

“...section 2(1)(c), where we proposed minimum standards on the face of the proposed Measure that a consultation may include, but would not be limited to, stakeholder meetings, surveys and the 28-day consultation period. That was to ensure that there was at least a minimum standard for this level of consultation, just to alleviate our fears that a future Minister might interpret the proposed Measure at the bare minimum of what is in front of us.”³⁹

55. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig nhw, dywedodd Mynediad ar gyfer Plant Du a Phlant Lleiafrifoedd ag Anabledau a/neu Glifydau Cronig (ABCD) Cymru fod yr adran yn rhy annelwig “and certain standards need to be specifically outlined here in terms of what this consultation process would involve.”⁴⁰

56. Cafodd pryderon eu codi hefyd ynghylch y posibilrwydd o dorri cyfrinachedd lle gellid ymgynghori â gofalywyr ynghylch gwasanaethau i'r person y maen nhw'n gofalu amdano. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig nhw, dywedodd CLILC:

“We do have concerns about the requirement that a carer should be consulted on what services to provide for the person they care for, this may breach patient confidentiality or may not reflect the wishes of the service user, especially if they are in conflict with their carer, which is not unknown.”⁴¹

³⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 160, 10 Mawrth 2010

³⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 116, 24 Chwefror 2010

⁴⁰ CS15, Tystiolaeth Ysgrifenedig

⁴¹ CS7, Tystiolaeth Ysgrifenedig

57. Ategwyd y farn hon gan ADSS Cymru, a ofynnodd hefyd i ystyriaeth gael ei rhoi i'r materion hyn yn y canllawiau.⁴²

58. Cafodd pryderon eu codi nad oedd y rhestr o "*awdurdodau perthnasol*" a amlinellwyd yn adran 2(3) o'r Mesur arfaethedig yn cynnwys rhai o swyddogaethau'r awdurdodau lleol o'r cychwyn, yn enwedig gwasanaethau addysg, a all chwarae rhan bwysig i gefnogi gofalwyr ifanc.

59. Dywedodd Barnardo's Cymru:

"We think that local education authorities should be on the face of the proposed Measure."⁴³

60. Ychwanegodd Barnardo's Cymru:

"education is a key part of their lives and it is therefore central to the carers who we work with."⁴⁴

61. Ailadroddodd Gweithredu dros Blant y farn hon, gan ddweud:

"we would therefore recommend that the local Education Department of the local authority and schools should also be 'responsible authorities' in the Measure as they have a crucial role in identifying and supporting young carers."⁴⁵

62. Nododd Cynhalwyr Cymru hefyd mor bwysig yw cynnwys addysg o'r dechrau, gan ddweud:

"I personally think that education should be one of those initial groupings that are involved..... I would have thought that any partnership that wanted to be as inclusive as possible would engage with education, not only for young carers, but for everyone's sake."⁴⁶

63. Er bod Comisiynydd Plant Cymru'n teimlo bod y rhestr o bedwar awdurdod perthnasol yn "pretty comprehensive", fe ychwanegodd:

"...the list of four is fine, but the issue for the regulations is that, if we are thinking about this comprehensive service for carers, as far as young carers are concerned, almost every

⁴² CS10, Tystiolaeth Ysgrifenedig

⁴³ Cofnod y Trafodion, paragraff 151, 3 Mawrth 2010

⁴⁴ *ibid*, paragraff 153

⁴⁵ CS21, Tystiolaeth Ysgrifenedig

⁴⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 158, 3 Mawrth 2010

component of a local authority's function—education being right up there—has a responsibility to provide services and support for young carers. So, that is a key task for regulation.”⁴⁷

64. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan ddau o bobl ifanc sy'n ofalwyr, a siaradodd y gofalwyr ifanc am eu profiadau nhw o addysg, gan ddatgan y dylai addysg fod yn allweddol wrth adnabod gofalwyr ifanc a bod angen ei chynnwys yn y rhestr “because every young person in the country is entitled to an education—that is where they spend most of their time”. Roedd un o'r gofalwyr ifanc, Hannah Spokes, yn teimlo nad yw ysgolion yn ymwybodol yn aml fod disgyblion yn ofalwyr ifanc ac felly nad oes lwfans yn cael ei wneud ar eu cyfer: “I think that a lot of young carers could be missed in the identification process, because schools are not aware of them or they just label them as troublemakers.”⁴⁸

Tystiolaeth y Dirprwy Weinidog

65. Mewn datganiad yn y cyfarfod llawn ar 26 Ionawr 2010, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

“Gall y Mesur arfaethedig hwn gynnwys holl gyfrifoldebau llywodraeth leol, ond barn y grŵp rhanddeiliaid oedd na fyddai mynd ati i gynnwys popeth ar unwaith ar y cychwyn un yn rhywbeth y gellid ymdopi ag ef. Felly, yr ydym wedi penderfynu cynnwys y gwasanaethau cymdeithasol yn y lle cyntaf ac, o bosibl, tai.”⁴⁹

66. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor dywedodd y Dirprwy Weinidog:

“I can confirm that local authority education functions do fall within the scope of the Mesur arfaethedig.”⁵⁰

67. O'i holi, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

“I recognise what young carers say about education, and we must emphasise that local authorities currently have the responsibility to seek to identify young carers, and this Mesur arfaethedig does not take that obligation away....

⁴⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 63, 24 Chwefror 2010

⁴⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 202, 17 Mawrth 2010

⁴⁹ Cofnod y Trafodion, Cyfarfod Llawn, 26 Ionawr 2010

⁵⁰ Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 Papur LC5(3)-08-10 Papur 1, 29 Ebrill 2010

However, the intention is to roll it out and to include the education service. My fear was that the big-bang approach would not have been manageable and I feel that a proper, rolled-out process with consistent development is crucial. Consistency, in my view, is exceedingly important: we do not want a patchwork, postcode thing to develop in relation to this strategy. A properly developed, stepped approach is the best way to serve all carers, including young carers.”⁵¹

68. Wrth ymdrin â chwestiwn cyfrinachedd rhwng gofalwr a’r person y gofelir amdano, doedd y Dirprwy Weinidog ddim yn credu y byddai unrhyw anawsterau ynglyn â chyfrinachedd ac mewn sefyllfaoedd lle gallai fod yna wrthdaro, esboniodd fel a ganlyn:

“Where any tensions arise I would expect these to be fully explored including, if necessary considering mediation. Where consent to share personal information is withheld, carers can still be provided with as much information as can be shared without breaching confidentiality or the data protection act.”⁵²

Ein barn ni

Mae’r Pwyllgor yn nodi’r dystiolaeth ac yn cydnabod mai ar yr awdurdodau lleol y mae’r baich wedi gorffwys o’r blaen o ran cefnogi gofalwyr. Serch hynny, mae’r Pwyllgor yn credu bod gan y GIG ran fawr i’w chwarae hefyd i gefnogi gofalwyr, ac mae’n falch felly, o weld y ddyletswydd hon yn cael ei gosod ar y GIG.

Mae’r Pwyllgor yn fodlon y bydd camau yn cael eu cymryd i sichrau na fydd cyfrinachedd rhwng y gofalwr a’r person sy’n cael gofal yn cael ei dorri.

Argymhelliad 3: Nid yw’r Pwyllgor yn credu bod adran 2(1)(c) yn rhoi digon o fanylion ar wyneb y Mesur arfaethedig ynghylch sut y dylid ymgynghori.

Mae’r Pwyllgor yn argymhell mewnosod y gwelliant canlynol (neu eiriau i’r un perwyl) yn y Mesur arfaethedig yn adran 2, tudalen 2, llinell 26 ar ôl ‘gofalwyr’, rhwch ‘a’u bod yn rhoi sylw dyladwy i’r ymatebion ymgynghori’.

⁵¹ Cofnod y Trafodion, paragraffau 60 and 61, 29 Ebrill 2010

⁵² Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 Papur LC5(3)-08-10 Papur 1, 29 Ebrill 2010

Argymhelliad 4: Mae'r Pwyllgor yn derbyn pryderon y Dirprwy Weinidog ynghylch effaith gosod dyletswyddau ar yr holl 'awdurdodau perthnasol' o'r dechrau. Serch hynny, clywodd y Pwyllgor gan lawer o'r tystion mor bwysig yw gwasanaethau addysg wrth gefnogi gofalwyr ifanc ac mae'n argymhell yn gryf y dylai gwasanaethau addysg gael eu cynnwys yn y set gyntaf o reoliadau.

Argymhelliad 5: Mae'r Pwyllgor yn argymhell gwella'r Mesur arfaethedig er mwyn caniatáu'r gallu i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, i ychwanegu at y rhestr o 'awdurdodau perthnasol' y manylir arni o dan adran 2(3).

6. Adran 3 – Gwybodaeth briodol a chyngor priodol

Y cefndir

69. Mae adran 3 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau yn nodi rhagor o ddarpariaeth ynghylch beth yw gwybodaeth briodol neu gyngor priodol yn ôl yr angen.

70. Diffinnir gwybodaeth briodol a chyngor priodol yn y Mesur arfaethedig fel gwybodaeth a chyngor sy'n debyg o fod o ddiddordeb neu fudd i ofalwyr yn rhinwedd eu rôl fel gofalwyr neu i'r person y gofelir amdano. Mae'r Mesur arfaethedig yn darparu y dylai'r wybodaeth hon a'r cyngor hwn gael eu darparu yn rhad ac am ddim.

Tystiolaeth y tystion

71. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn teimlo bod y diffiniad o 'gwybodaeth briodol a chyngor priodol' yn rhy gyffredinol neu annelwig a bod angen rhagor o eglurhad. Teimlad ABCD oedd: "a more comprehensive definition of "appropriate" should have been provided at this stage."⁵³

72. Aeth ABCD ymlaen i ychwanegu nad oedd adran 3 yn glir ynghylch ystyr cyngor "priodol", ac y gallai hynny fod yn gyfle i asiantaethau ac awdurdodau beidio â gwireddu'r strategaeth yn iawn "if they are not given specific criteria to abide by."⁵⁴

73. Roedd Cyngor ar Bopeth Cymru'n awyddus i wybodaeth a chyngor i ofalwyr fod yn annibynnol ac yn ddiuedd, gan awgrymu diwygio'r geiriad "appropriate information and advice" i gynnwys y gair "independent".⁵⁵

74. Awgrymodd Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan:

"it may be appropriate to determine a minimum requirement upon organisations for information for carers and the cared for,

⁵³ CS15, Tystiolaeth Ysgrifenedig

⁵⁴ *ibid*

⁵⁵ CS22, Tystiolaeth Ysgrifenedig

however there would need to be appropriate resource to support these responsibilities.”⁵⁶

75. Cododd CLILC hefyd gwestiwn adnoddau, gan deimlo y byddai angen manylion yn y rheoliadau a bod angen taro cydbwysedd rhwng yr wybodaeth a fyddai'n fuddiol i ofalwyr a'r hyn y byddai'r adnoddau'n ei ganiatáu. Dywedodd CLILC fod adran 3 yn dal yn annelwig:

“stating that appropriate information would constitute that which is *‘likely to be of interest or benefit to carers in their role as such’*. Regulations must ensure that relevant authorities are clear enough on what this means, in order to develop an effective information and advice service.”⁵⁷

76. Ychwanegodd CLILC:

“There is a need for a balance to be drawn here to ensure that the information required is derived from what carers have indicated they would find helpful, and what it is within the gift of local authorities and health to provide.”⁵⁸

77. Roedd rhai o'r tystion yn teimlo bod y ddarpariaeth yn y Mesur arfaethedig ynghylch *‘gwybodaeth briodol a chyngor priodol’* yn foddhaol. O'u holi a oedd y term yn ddigon gorchmynnol o ran diffiniad, dywedodd Cydffederasiwn GIG Cymru “I think that it is; it is about taking planned steps regarding what information is provided.”⁵⁹

78. Teimlai Cydffederasiwn GIG Cymru a thystion eraill y dylai gwybodaeth gael ei theilwra at anghenion yr unigolyn yn hytrach nag arddel “‘one size fits all’ approach.”⁶⁰ Er bod egwyddor rhoi'r un wybodaeth i bawb i'w hedmygu, roedd Cydffederasiwn GIG Cymru yn credu fod angen iddi gael ei theilwra at anghenion penodol yr unigolyn ac na ddylai wrthdaro â'r wybodaeth yr oedden nhw'n ei chael ar ran y rhai y gofelid amdany'n nhw.⁶¹

79. Awgrymodd ABCD y dylai cyfeiriad penodol gael ei wneud at anghenion gwybodaeth penodol ymysg grwpiau sy'n anodd eu

⁵⁶ CS3, Tystiolaeth Ysgrifenedig

⁵⁷ CS7, Tystiolaeth Ysgrifenedig

⁵⁸ *ibid*

⁵⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 19, 3 Mawrth 2010

⁶⁰ CS15, Tystiolaeth Ysgrifenedig

⁶¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 19, 3 Mawrth 2010

cyrraedd, megis ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Fe ddywedon nhw hefyd:

“In addition, it is important to highlight in this section that religious and cultural needs have a significant impact upon how ‘appropriate’ information is.”⁶²

80. Roedd grwpiau sy’n eiriol dros blant yn ategu bod angen gwybodaeth sy’n briodol i’r gynulleidfa. Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru:

“We would seek assurances that the ‘appropriate information and advice’ would facilitate the UNCRC article 12 entitlement which would necessitate age appropriate material and appropriately trained staff to deal with young carers.”⁶³

81. Yn y dystiolaeth a roddwyd gan ofalwyr ifanc, gan fod cyngor a gwybodaeth at ei gilydd yn cael eu rhoi i’r prif ofalwr esboniodd Hannah Spokes nad oedd anghenion gofalwr eilaidd bob amser yn cael eu bodloni, gan ddweud “I personally do not get a lot of information because it all goes through my mum because she is the parent.”⁶⁴

82. Siaradodd gofalwyr ifanc hefyd am bwysigrwydd gwasanaethau’r sector gwirfoddol wrth ddarparu gwybodaeth a chymorth i ofalwyr ifanc, Dywedodd Hannah Spokes “If I need any questions answered or if I need to find anything out, I go straight to ‘young carers’,⁶⁵ because that is the only way I know how to get information.”⁶⁶

Tystiolaeth y Dirprwy Weinidog

83. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig dywedodd y Dirprwy Weinidog hyn wrth y Pwyllgor:

“I am confident that the regulation making power in section 3(2) of the proposed Measure is sufficiently wide enough to encompass information which is both generic and specific in nature and to allow for ease of accessibility and availability of

⁶² CS15, Tystiolaeth Ysgrifenedig

⁶³ CS1, Tystiolaeth Ysgrifenedig

⁶⁴ Cofnod y Trafodion paragraff 191, 17 Mawrth 2010

⁶⁵ Grŵp i gefnogi gofalwyr ifanc sy’n cael ei ddarparu gan Barnardo’s Cymru

⁶⁶ Cofnod y Trafodion paragraff 197, 17 Mawrth 2010

appropriate information and advice when and where it is needed.”⁶⁷

84. Dywedodd y Dirprwy Weinidog:

“I can assure the Committee that the key role of the Third Sector will be fully taken into account as we develop our implementation proposals through Regulations and guidance.”⁶⁸

Ein barn ni

Argymhelliad 6: Nid yw'r Pwyllgor yn credu bod y diffiniad o 'gwybodaeth briodol a chynghor priodol' yn ddigonol ac felly mae'n argymhell gwella adran 3 i sicrhau bod diffiniad mwy cynhwysfawr o "priodol" yn cael ei ddarparu.

Mae'r Pwyllgor wedi'i gysuro wrth glywed ymrwymiad y Dirprwy Weinidog i'r trydydd sector. Mae'r dystiolaeth wedi dangos bod gwaith y sector hwn yn hanfodol i ofalwyr, ac mae angen i sefydliadau statudol sicrhau eu bod yn parhau i gael eu cynnwys.

⁶⁷ Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 Papur LC5(3)-08-10 Papur 1, 29 Ebrill 2010

⁶⁸ *ibid*

7. Adran 4 – Ymgynghori

Y cefndir

85. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n pennu'n fanwl y camau y mae'r awdurdodau perthnasol yn gorfod eu cymryd neu'n cael eu cymryd wrth fodloni eu dyletswydd i ymgynghori â gofalwyr, sef dyletswydd a geir yn adran 2(1)(b) ac (c) o'r Mesur arfaethedig.⁶⁹

Tystiolaeth y Tystion

86. Roedd y dystion i gyd o blaid y pŵer a roddir i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau yn pennu camau i'w cymryd gan yr awdurdodau perthnasol wrth fodloni eu dyletswydd i ymgynghori a gofalwyr. Serch hynny, roedd llawer o'r dystion yn amau y dylai rhagor o fanylion gael eu rhoi ynghylch sut y gall Gweinidogion Cymru ragnodi'r camau sydd i'w cymryd wrth ymgynghori a gofalwyr.

87. Nododd Cynghrair Niwrolegol Cymru fod llwyddiant yr adran hon wrth gynnwys gofalwyr yn dibynnu i raddau helaeth ar fanylion y rheoliadau, gan ddweud:

“we have to see what regulations come out of the Mesur arfaethedig. As drafted, if the Deputy Minister so wishes, it has the potential to revolutionise the level at which carers are involved in looking at, for example, specific services and centres of information for them and the person they care for. So, they could be involved at the maximum level and maximum interpretation of section 2. On the other hand, a more minimalist interpretation would be that that involvement would mean a letter being sent to them to ask for their views in the form of a survey. That area in particular is one where we have to see what the regulations look like.”⁷⁰

88. Aeth Cynghrair Niwrolegol Cymru ymlaen i awgrymu safon ymgynghori ofynnol ar gyfer y Mesur arfaethedig:

“..... minimum standards on the face of the proposed Measure that a consultation may include, but would not be limited to,

⁶⁹ Memorandwm Esboniadol, page 23

⁷⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 116, 24 Chwefror 2010

stakeholder meetings, surveys and the 28-day consultation period. That was to ensure that there was at least a minimum standard for this level of consultation, just to alleviate our fears that a future Minister might interpret the proposed Measure at the bare minimum of what is in front of us.”⁷¹

89. Serch hynny, roedd Cydffederasiwn GIG Cymru yn credu bod y ddyletswydd i ymgynghori yn ddigon cryf.

“I do not think that you would need legislation to help you to consult with people effectively, as long as you feed back those relevant elements to them. They have a right to that, in terms of the transparent development of services, and to have their views taken into account.”⁷²

90. Roedd CLILC yn cytuno â hyn:

“we feel that sufficient arrangements are already in place.”⁷³

91. Cododd y dystion hefyd y mater bod angen i ymgynghori fod yn fwy nag ‘ymarfer ticio blychau’ a bod angen rhoi sylw i ymatebion ymgynghori. Dywedodd swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

“...it is better to make it clear that involvement is required at all stages, so that consultation does not occur only when the strategy has been well defined. That also addresses the potential difficulty that there is no provision to go back to carers to explain what has been done, or to involve carers in evaluation and in reporting once the strategy has been developed.”⁷⁴

Tystiolaeth y Dirprwy Weinidog

92. Esboniodd y Dirprwy Weinidog y byddai adran 4 yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi gofynion ynglŷn ag ymgynghori yn ôl yr amgylchiadau lleol. Dywedodd y Dirprwy Weinidog:

“Nid ein bwriad yw gadael i awdurdodau lleol eithrio o elfennau craidd ymgynghori y byddwn yn eu cynnig mewn rheoliadau drafft ar ôl trafodaethau pellach â rhanddeiliaid, gan gynnwys cynrychiolwyr awdurdodau perthnasol a gofalwyr. Gallai

⁷¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 116, 24 Chwefror 2010

⁷² Cofnod y Trafodion, paragraff 91, 3 Mawrth 2010

⁷³ Cofnod y Trafodion, paragraff 54, 10 Mawrth 2010

⁷⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 59, 17 Mawrth 2010

enghraifft o'r hyn yr wyf yn ei olygu wrth ddweud 'elfennau craidd' gynnwys y dylai'r person yr ymgynghorir ag ef gael yr hawl i ddisgwyl ymateb rhesymegol i'r pwyntiau y mae wedi'u gwneud. Ar yr un pryd, mae'n bwysig y tu allan i'r elfennau craidd hyn, fod awdurdodau perthnasol yn cadw'r disgresiwn i ystyried amgylchiadau lleol penodol. Credaf fod hynny'n ddull synhwyrol."⁷⁵

Ein barn ni

Argymhelliad 7: Mae'r Pwyllgor yn credu nad yw'r ddyletswydd i ymgynghori â gofalwyr yn ddigon cryf ac felly mae'n argymhell gwneud gwelliant i linell 21 o adran 4, i ddileu'r geiriau 'neu y caniateir,'.

Argymhelliad 8: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai adran 4 gael ei gwella ymhellach i fewnosod safon ymgynghori ofynnol i'w rhagnodi gan Weinidogion Cymru yn y Mesur arfaethedig. Gallai hyn ddiffinio'r ymgynghori a'r gofyniad bod rhaid rhoi adborth ar yr ymatebion a geir. Mae'r Pwyllgor yn argymhell mewnosod y gwelliant canlynol (neu eiriau i'r un perwyl) yn adran 4 o'r Mesur arfaethedig:

“Caiff yr ymgynghori gynnwys cyfarfodydd â rhanddeiliaid, arolwg ymhlith gofalwyr a'r cynrychiolwyr a defnyddwyr gwasanaethau (ond nid yw'n gyfyngedig i'r rhain).”

⁷⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 91, 10 Chwefror 2010

8. Adran 5 – Darpariaeth bellach ynghylch strategaethau

Y cefndir

93. Mae adran 5 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n cynnwys rhagor o ddarpariaethau ynghylch sut mae'r awdurdodau perthnasol i baratoi a chyhoeddi eu strategaethau.

94. Mae adran 5 hefyd yn rhestru enghreifftiau o'r darpariaethau pellach y caiff Gweinidogion Cymru eu gwneud mewn rheoliadau o ran paratoi a chyhoeddi strategaethau.

95. Mae'r adran hefyd yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru ddynodi corff GIG yn awdurdod arweiniol ar gyfer pob strategaeth, gyda'r awdurdod arweiniol yn cael ei ddynodi at ddibenion cydlynu a goruchwyllo'r gwaith i baratoi a chyhoeddi'r strategaeth ac unrhyw adolygu arni wedyn.

Tystiolaeth y Tystion

96. Dywedodd llawer o'r dystiolaeth a ddaeth i law mai'r awdurdodau lleol yn bendant sy'n gyfrifol am ddarparu cymorth a chynghor ar gyfer gofalwyr ar hyn o bryd. Serch hynny, roedd y dystion yn credu mai gweithwyr iechyd proffesiynol yn aml oedd yn y lle gorau i adnabod person a chanddo rôl fel gofalwr ac i gyfeirio gofalwyr at ffynonellau cymorth a gwybodaeth.

97. Mynegodd Cynhalwyr Cymru bryder pe na bai'r corff GIG yn gorff arweiniol, sef: "they will not see it as an important activity and one which they can choose to opt out of."⁷⁶

98. Roedd Barnardo's Cymru'n cytuno, gan ddweud: "the patient is the route to identifying the carer. So, it makes sense to us that the health service should be the lead."⁷⁷

99. Roedd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru o blaid y cyfle i'r GIG gymryd yr awenau, oherwydd "health providers are generally acknowledged to be underperforming in recognising and addressing

⁷⁶ CS4, Tystiolaeth Ysgrifenedig

⁷⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 137, 10 Mawrth 2010

the needs of carers”.⁷⁸ Roedd y Comisiynydd hefyd yn teimlo mai'r GIG oedd y pwynt cysylltu cyntaf yn aml i ofalwyr a'r rhai a oedd yn derbyn gofal, yn enwedig i niferoedd arwyddocaol o bobl hŷn. Awgrymodd y Comisiynydd y gallai arweiniad o du'r GIG fod â'r fantais o hwyluso saith strategaeth ranbarthol gyda'r awdurdodau lleol unigol yn rhoi'r ffocws lleol. Dywedodd:

“health is lagging behind, but one of the key attractions for us in having health bodies as lead bodies is that, hopefully, we will have fewer strategies.”⁷⁹

100. Cytunodd Cynghrais Pensiynwyr y Gwasanaeth Sifil y byddai corff GIG arweiniol yn fuddiol ar gyfer gofalwyr hŷn, gan ddweud:

“We are especially pleased to note the duty on the NHS to work with partners to develop local information strategies. We believe that the measure proposed will be of benefit to older carers, a group which can have particular difficulties in getting the right information at the right time as their circumstances change, or they become carers for the first time.”⁸⁰

101. Serch hynny, mynegodd tystion eraill amheuan gan deimlo y dylai'r arweiniad gael ei gytuno'n lleol neu ei ddynodi gan Weinidogion Cymru.

102. Yn ystod eu tystiolaeth nhw dywedodd CLILC a Barnardo's Cymru y dylai gwybodaeth y profwyd ei bod yn gweithio a'r arferion gorau gael eu rhannu rhwng y GIG a'r awdurdodau lleol, ac y dylid adeiladu arnyn nhw er mwyn sicrhau na fydden nhw'n cael eu colli. Dywedodd CLILC:

“That is our main concern, rather than who has the lead: it is about ensuring that local partnerships and local planning are taken into account and are adequately reflected at whatever level the strategies are produced.”⁸¹

103. Er eu bod o blaid corff GIG arweiniol, roedd gan CLILC bryderon ynghylch nifer y strategaethau yr oedd eu hangen ac ynghylch colli ffiniau cydffiniol y Byrddau Iechyd Lleol/awdurdodau lleol, Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig fe ddywedon nhw:

⁷⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 33, 17 Mawrth 2010

⁷⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 50, 17 Mawrth 2010

⁸⁰ CS18, Tystiolaeth Ysgrifenedig

⁸¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 32, 10 Mawrth 2010

“By placing the lead on the NHS it recognises that they are the agency with the majority of direct contact with carers. However this leads to obvious, and as yet unresolved questions about how this would work in practice. How many strategies would be required and how would this work in the context of the loss of co-terminus boundaries?”⁸²

104. Aeth CLILC ymlaen i ychwanegu hyn:

“if there are some areas where a strategy is working effectively and led by the local authority, we see no reason why that should be changed. In fact, that may be replicated in other areas where it is felt to be more appropriate.”⁸³

105. Roedd Stonewall Cymru’n rhannu’r farn hon. Er eu bod o blaid y pŵer i ddynodi corff GIG arweiniol, roedden nhw’n teimlo y dylai Gweinidogion Cymru:

“encourage responsible authorities to designate lead authorities amongst themselves by agreement and to only use this power in the case that such agreement is not forthcoming.”⁸⁴

106. At ei gilydd, roedd ymatebwyr yn y GIG yn gwrthwynebu rhoi’r arweiniad i’r GIG. Dywedodd Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda:

“...colleagues in the local authorities have for years developed services, understanding and engagement with carers. The responsibility should/could lie with Partnership Boards or Local Service Boards.”⁸⁵

107. Roedd ymatebwyr yn y GIG yn gofidio hefyd y byddai diffyg parhad ac y gallai arferion da gael eu colli pe na bai’r awdurdodau lleol yn cymryd yr awenau. Dywedodd Cydffederasiwn GIG Cymru:

“...many of the statutes in place lie with local government, and I would hate to think that we would make the situation more complex by divvying that up and making health responsible, which would take away from what is already there.”⁸⁶

⁸² Cofnod y Trafodion, paragraff 137, 10 Mawrth 2010

⁸³ *ibid*

⁸⁴ CS16, Tystiolaeth Ysgrifenedig

⁸⁵ CS3, Tystiolaeth Ysgrifenedig

⁸⁶ Cofnod y Trafodion, Paragraffau 31, 33 a 34, 3 Mawrth 2010

108. Roedd Cynghrair Niwrolegol Cymru'n rhannu'r farn hon, gan ddweud:

“there is real concern that good examples of best practice in local authorities will be lost if an NHS body or an LHB is designated as the lead organisation.”⁸⁷

109. O ran y ddarpariaeth i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch paratoi a chyhoeddi'r strategaeth, pwysleisiodd rhai o'r tystion mor bwysig oedd cadw cydbwysedd yn y rheoliadau rhwng cyfarwyddiadau canolog a hyblygrwydd lleol. Dywedodd Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan:

“It is important however that when giving national direction, that there is also adequate flexibility for the reflection of local needs.”⁸⁸

110. Roedd CLILC ac ADSS Cymru'n gofidio y gallai defnyddio rheoliadau olygu meicro-reoli'r gwaith cyflawni ar y lefel leol. Dywedodd ADSS Cymru:

“We would refer to the agreement between the Assembly Government and local government, which is predicated on the principle that national government sets the strategic direction of policy but it is local government that delivers on that. We appreciate that the Assembly Government will want to clearly communicate its expectations.”⁸⁹

111. Er bod Stonewall Cymru'n teimlo bod y pwerau a oedd yn cael eu rhoi i Weinidogion Cymru yn briodol ac yn angenrheidiol er mwyn cyflawni nodau'r Mesur arfaethedig, roedden nhw hefyd yn teimlo y dylai'r pwerau gael eu defnyddio mewn modd cymesur ac y dylai'r awdurdodau cyfrifol gadw'r rhyddid i addasu strategaethau i ateb anghenion yr ardal leol.⁹⁰

112. Roedd Cynhalwyr Cymru'n teimlo bod y pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan adran 5 yn hanfodol “if the strategies are to be dynamic and become mainstreamed as a priority area of work within the NHS and the partner authorities”.⁹¹

⁸⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 109, 24 Chwefror 2010

⁸⁸ CS3, Tystiolaeth Ysgrifenedig

⁸⁹ CS10, Tystiolaeth Ysgrifenedig

⁹⁰ CS16, Tystiolaeth Ysgrifenedig

⁹¹ CS4, Tystiolaeth Ysgrifenedig

Tystiolaeth y Dirprwy Weinidog

113. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig rhoddodd y Dirprwy Weinidog wybod i'r Pwyllgor:

“...the NHS has substantially more contact with carers than local authorities it seemed appropriate for NHS organisations to be designated as the lead.”⁹²

114. Ychwanegodd hyn:

“However, it is important to recognise that Section 5(3) of the proposed Measure provides that Welsh Ministers **may**, for each strategy, designate an NHS organisation as the lead authority.... There is though the option for Welsh Ministers not to designate a lead authority and for the responsible authorities to simply work together in partnership.”⁹³

Ein barn ni

Argymhelliad 9: Nid yw'r Pwyllgor yn credu mai'r GIG ddylai fod yn awdurdod arweiniol bob tro ac y dylai hyn gael ei gytuno'n lleol neu ei ddynodi gan Weinidogion Cymru. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Mesur arfaethedig yn caniatáu i Weinidogion Cymru “ddynodi corff GIG yn gorff arweiniol”. Serch hynny, does dim darpariaeth i Weinidogion Cymru ddynodi awdurdod arweiniol arall pan fo angen hynny. Mae'r Pwyllgor yn argymhell ychwanegu darpariaeth at adran 5(3) i ganiatáu i Weinidogion Cymru ddynodi unrhyw “awdurdod perthnasol” yn awdurdod arweiniol.

⁹² Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 Papur LC5(3)-08-10 Papur 1, 29 Ebrill 2010

⁹³ *ibid*

9. Adran 6 – Cyflwyno strategaethau drafft i Weinidogion Cymru

Y cefndir

115. Mae adran 6 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaethau ynghylch sut a pha bryd y mae'n rhaid i'r awdurdodau cyfrifol gyflwyno'u strategaethau i Weinidogion Cymru a'u cyhoeddi.

116. Rhaid i'r awdurdodau cyfrifol beidio â chyhoeddi strategaeth yn ei ffurf derfynol nes eu bod wedi anfon strategaeth ddrafft at Weinidogion Cymru, a bod Gweinidogion Cymru wedi'u bodloni bod y strategaeth ddrafft yn cydymffurfio â'r gofynion, neu os yw Gweinidogion Cymru ar ôl cael strategaeth ddrafft wedi dyroddi cyfarwyddiadau yn datgan yr hyn y mae'n rhaid i'r awdurdodau cyfrifol ei wneud er mwyn sicrhau bod y strategaeth yn cydymffurfio â'r gofynion, wedi'u bodloni y cydymffurfiwyd â'r cyfarwyddiadau hynny.

117. Mae'r adran hon hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i bennu sut a pha bryd y mae'n rhaid cydymffurfio â darpariaethau'r adran 6 hon.

Tystiolaeth y Tystion

118. Roedd y Byrddau Iechyd Lleol at ei gilydd o blaid cyflwyno'r strategaethau i Weinidogion Cymru ar y sail bod hynny'n gyson â'r arferion presennol ynghylch Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant. Dywedodd Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan:

“These arrangements would be consistent with the duty of care placed on both the National Health Service and Local Authorities in the development of Health Social Care and Well Being Strategies. However, in this scenario, we believe, strategies are submitted to Welsh Assembly Government as opposed to direct to the responsible Minister.”⁹⁴

⁹⁴ CS3, Tystiolaeth Ysgrifenedig

119. Roedd Cynghrair Niwrolegol Cymru'n credu y byddai cyflwyno i'r Dirprwy Weinidog yn ddarpariaeth dda gan y byddai'n arwain at safon fwy unffurf wrth wireddu'r strategaeth.

120. Er hynny, cafodd pryderon eu codi gan CLILC ac ADSS Cymru fod y gofyniad yn syrthio i mewn i feicro-reoli a allai danseilio disgresiwn lleol.⁹⁵ Aeth CLILC ymlaen i ychwanegu:

“We also feel that the Assembly Government’s role is to set the strategic context and then, through clear regulations and guidance, allow the lead statutory agencies to deliver on that. We also question it with regard to capacity, namely whether or not that is an appropriate use of the resource.”⁹⁶

121. Er mwyn sicrhau bod gan bob un o'r 22 o awdurdodau lleol strategaethau tebyg, roedd CLILC hefyd yn teimlo y dylai'r rheoliadau diffinio'r hyn a ddylai gael ei gynnwys yn ogystal ag arferion da a chydweithredu.

“...There is a lot of evidence now of where authorities and agencies are using good practice and templates and are sharing information among themselves and collaborating in a way that produces consistency. There are also inspection regimes both in the NHS and in local government that will take that into account and they spend a vast amount of time reviewing documents and commenting on consistency or lack of it. The Deputy Minister would have all that available and that is why we said that if the Deputy Minister requires a certain level of scrutiny to satisfy itself that this has been achieved, there are other mechanisms that she can use.”⁹⁷

122. Awgrymodd Barnardo's Cymru y dylid cynnwys cynllun gweithredu a chraffu ar wyneb y Mesur arfaethedig, gan ddweud:

“...We believe that the proposed Measure should call for the delivery of a strategy, an implementation plan and a scrutiny plan to Welsh Ministers. That scrutiny plan should tell Welsh Ministers how it is intended that the implementation and the

⁹⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 36, 10 Mawrth 2010

⁹⁶ *ibid*

⁹⁷ *ibid*, paragraff 38

strategy will be scrutinised, so that it is signed off as a package.”⁹⁸

123. Roedd Ymddiriedolaeth y Dywysoges Frenhinol i Ofalwyr a Crossroads Care yn rhannu’r farn hon, gan ddweud:

“The requirements for monitoring, review and implementation will be critical to successful delivery of information to carers at the right time and place to aid them and the person they care for.”⁹⁹

Tystiolaeth y Dirprwy Weinidog

124. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

“My aim is to use the regulation making powers in the Mesur arfaethedig to establish a monitoring and evaluation framework for the strategies that focuses mainly on appropriate and proportional arrangements to ensure local accountability. Under section 6 of the proposed Measure Welsh Mionsiters have no role in formally approving any draft strategy. Their role is restricted to ensuring that any draft strategy complies with the requirements imposed by or under the proposed Measure

The strategies will fall within the inspection remit of both the Care and Social Services Inspectorate Wales and the Healthcare Inspectorate Wales.”¹⁰⁰

Ein barn ni

Argymhelliad 10: Mae’r Pwyllgor yn derbyn mai i Weinidogion Cymru y dylai’r strategaethau gael eu cyflwyno. Serch hynny, mae’r Pwyllgor yn argymhell cynnwys safon ddisgwyliadau ofynnol yn y rheoliadau, a ddylai gynnwys cynllun gweithredu a chynllun adolygu.

⁹⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 116, 10 Mawrth 2010

⁹⁹ CS13, Tystiolaeth Ysgrifenedig

¹⁰⁰ Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 Papur LC5(3)-08-10 Papur 1, 29 Ebrill 2010

10. Adran 7 – Cyfle i'r cyhoedd gael gweld strategaeth

Y cefndir

125. Mae'r adran hon yn manylu ar sut y dylid trefnu bod y strategaethau ar gael i'r cyhoedd. Mae adran 7 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod sy'n gyfrifol am strategaeth drefnu bod copi ar gael i'w archwilio yn y brif swyddfa.

Tystiolaeth y Tystion

126. Wnaeth y mwyafrif o'r dystion ddim cyflwyno sylwadau ar yr adran hon. Er hynny, cododd Stonewall Cymru bryderon nad oedd yr adran hon yn mynd yn ddigon pell, gan ddweud:

“there will be no obligation placed upon responsible authorities to ensure that the strategy is widely promoted and known to carers. This again does not contribute to increasing the involvement of carers in the strategies and to ensuring that strategies are responsive to the needs of carers.”¹⁰¹

127. Aeth Stonewall ymlaen gyda phryderon ynghylch yr adran:

“Additionally the requirement to make the strategy available for inspection ‘at all reasonable hours’ could exclude some carers from accessing the strategy, due to the timing of their caring responsibilities.”¹⁰²

128. Er mwyn sicrhau bod strategaethau ar gael yn eang, rhoddodd y mwyafrif o'r dystion sylw i'r angen i sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn nifer o fformatau. Dywedodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru: “...we must ensure that the information is provided in many ways.”¹⁰³

129. Dywedodd Plant yng Nghymru hyn:

“The information available should be part of the generic information developed for all carers, but needs to be available

¹⁰¹ CS16, Tystiolaeth Ysgrifenedig

¹⁰² CS16, Tystiolaeth Ysgrifenedig

¹⁰³ Cofnod y Trafodion, paragraff 71, 17 Mawrth 2010

in a format accessible to young people, and needs to address issues including education, leisure and family support.”¹⁰⁴

130. Awgrymodd Jemma England (unigolyn preifat) y dylai gwybodaeth fod ar gael:

“...through as many mediums as possible, such as the internet, telephone information line and printed information.”¹⁰⁵

Tystiolaeth y Dirprwy Weinidog

131. Awgrymodd y Dirprwy Weinidog y byddai'r gofyniad ar yr awdurdodau i hybu'r strategaeth a sicrhau ei bod yn hysbys i ofalwyr yn cael ei ddatblygu wrth i'r rheoliadau gael eu cyflwyno. Dywedodd y Dirprwy Weinidog:

“we will embrace, within regulations, the obligation to raise awareness of the strategies and the monitoring and evaluation of the strategies as well. I do not have personal concerns about what you have just said because we can embrace that within regulations.”¹⁰⁶

Ein barn ni

Argymhelliad 11: Mae'r Pwyllgor yn credu mai'r swm lleiaf posibl o waith hybu'r strategaeth sy'n cael ei ganiatáu gan adran 7 ac nad yw adran 7 yn gosod rhwymedigaeth ar yr awdurdodau i hybu a mynegi'r strategaeth i ofalwyr. Mae'r Pwyllgor yn argymhell gwella'r adran hon drwy gyfrwng gwelliant priodol i sicrhau bod y strategaethau ar gael yn eang mewn modd hygyrch, a hynny o fewn amserlen sy'n briodol i anghenion y gofalwr.

¹⁰⁴ CS17, Tystiolaeth Ysgrifenedig

¹⁰⁵ CS14, Tystiolaeth Ysgrifenedig

¹⁰⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 87, 29 Ebrill 2010

11. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

Y cefndir

132. Mae'r Mesur arfaethedig yn cynnwys pwerau galluogi i Weinidogion Cymru i weithredu a nodi manylion ynglŷn â pharatoi a chyhoeddi strategaethau gofalwyr mewn rheoliadau a gorchmynion.

133. Mae Memorandwm Esboniadol y Mesur arfaethedig yn dweud:

“Oherwydd natur yr is-ddeddfwriaeth arfaethedig, sy'n ymwneud yn bennaf â'r trefniadau gweinyddol ar gyfer paratoi a chyhoeddi'r strategaeth, bydd y ddeddfwriaeth yn destun y **weithdrefn negyddol.**”¹⁰⁷

Tystiolaeth y Tystion

134. Roedd yna rywffaint o bryder nad oedd y Mesur arfaethedig yn cynnwys digon o fanylion, a bod gormod yn cael ei adael i'r is-ddeddfwriaeth. Roedd Cynghrair Niwrolegol Cymru'n feirniadol o gydbwysedd y grym rhwng y ddeddfwrfa a Gweinidogion Cymru, gan ddweud:

“This proposed Measure is very much an enabling Measure—it is only five pages long. However, what could come out of that by regulation could make a real change to how carers across Wales are treated.”¹⁰⁸

135. Oherwydd y manylion a fyddai'n cael eu cynnwys yn y set gyntaf o reoliadau, roedd Cynghrair Niwrolegol Cymru'n credu y dylai'r rheoliadau hynny ddod o dan drefniadau craffu manylach:

“we feel that the affirmative procedure should be used in the first instance, and we are not alone in holding that view.”¹⁰⁹

136. Cytunodd Barnardo's Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru mai'r weithdrefn gadarnhaol a ddylai gael ei defnyddio ar gyfer y set gyntaf o reoliadau.

¹⁰⁷ Memorandwm Esboniadol, paragraff 5.3

¹⁰⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 132, 24 Chwefror 2010

¹⁰⁹ *ibid*

137. Pe bai mwy o fanylion yn cael eu cynnwys ar wyneb y Mesur arfaethedig, awgrymodd swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru y gallai'r rheoliadau ddod o dan y weithdrefn negyddol.

“So much detail is needed at the moment that we would probably favour going down the affirmative route. However, if there were a few more details on the face of the proposed Measure, perhaps the negative route could be used more effectively.”¹¹⁰

138. Serch hynny, roedd rhai sefydliadau'n teimlo nad oedd angen defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol ar gyfer y set gyntaf o reoliadau. Dywedodd Ymddiriedolaeth y Dywysoges Frenhinol a Crossroads Care:

“We feel that the negative resolution procedure is fine in this case as we believe there is nothing within the scope of this Measure that requires the prior approval of the National Assembly for Wales. The responsible Minister will be in a position to make necessary changes, provided carers and carers services are appropriately consulted with and listened to.”¹¹¹

139. Dywedodd CLILC nad oedd yna farn gyson ymhlith yr awdurdodau lleol ond bod yna farn nad oedd angen i'r set gyntaf o reoliadau fynd drwy'r weithdrefn gadarnhaol oherwydd:

“.....the proposed Measure has been fully consulted on and signed up to, so this level of detail does not need to go through the affirmative process. However, we do not have a formal view on that.”¹¹²

140. Yn unol â Rheol Sefydlog 15.6, mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol wedi ystyried y darpariaethau ynglŷn ag is-ddeddfwriaeth a geir yn y Mesur arfaethedig, ac wedi cymryd tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol amdano. Mae'r Pwyllgor wedi cynhyrchu adroddiad ar wahân ynghylch y darpariaethau hynny.

¹¹⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 61, 17 Mawrth 2010

¹¹¹ CS13, Tystiolaeth Ysgrifenedig

¹¹² Cofnod y Trafodion, paragraff 77, 10 Mawrth 2010

Tystiolaeth y Dirprwy Weinidog

141. Dywedodd y Dirprwy Weinidog y byddai'r is-ddeddfwriaeth a fyddai'n deillio o'r Mesur arfaethedig yn dod o dan y weithdrefn negyddol, gan mai trefniadau gweinyddol i hwyluso rhoi'r strategaethau ar waith fyddai o dan sylw yn y darpariaethau. Aeth y Dirprwy Weinidog ymlaen i ddweud y byddai'n ystyried defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol "if the Committee were to recommend this approach".¹¹³

142. O'i holi ar y pwynt hwn, ailadroddodd y Dirprwy Weinidog ei barn ynghylch defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol:

"My thoughts were that what we are doing is developing an administrative process and that that would be adequately dealt with by the negative procedure. However, if the Committee wants to make that point, I am prepared to consider it."¹¹⁴

Ein barn ni

Argymhelliad 12: Mae'r Pwyllgor yn teimlo bod yna gryn dipyn o botensial i'r Mesur arfaethedig gael ei ddiwygio drwy gyfrwng rheoliadau; gan hynny mae'n argymhell y dylai'r set gyntaf o reoliadau i gael ei phasio o dan bob adran ddod o dan y weithdrefn gadarnhaol.

¹¹³ Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 Papur LC5(3)-08-10 Papur 1

¹¹⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 91, 29 Ebrill 2010

12. Y Goblygiadau Ariannol

Y cefndir

143. Mae'r Asesaid Effaith Rheoleiddiol yn dweud hyn:

“Byddai awdurdodau lleol a'r GIG yng Nghymru yn ysgwyddo costau gweithredu a chostau gweinyddu mewn perthynas â'r Mesur arfaethedig Mae'r strategaethau yn debygol o gael eu gweithredu'n raddol rydym yn amcangyfrif y bydd y costau gweinyddu a'r costau gweithredu ledled Cymru oddeutu £0.9 miliwn ym mlwyddyn 1, £1.7 miliwn ym mlwyddyn 2, a chodi i £3.2 miliwn ym mlwyddyn 3.

Gweithrediaeth yr Alban yw'r unig enghraifft arall o weinyddiaeth yn y DU sy'n defnyddio dull cyffelyb sy'n galluogi awdurdodau i lunio strategaethau ar gyfer gofaluwr. Yn yr Alban, bu'r trefniadau hyn yn eu lle er 2006, ac mae Gweithrediaeth yr Alban wedi darparu oddeutu £9 miliwn o gyllid ar gyfer y tair blynedd yn cychwyn 2008-09 (£1 miliwn ym mlwyddyn 1; £3 miliwn ym mlwyddyn 2 a £5 miliwn ym mlwyddyn 3). Mae poblogaeth Cymru oddeutu 60% o boblogaeth yr Alban.

At ddibenion egluro yn unig, yng Nghymru ceir 22 awdurdod lleol a 7 Bwrdd Iechyd Lleol. O rannu amcangyfrif y costau gweithredu (fel a nodir yn adran 8.11 uchod) yn gyfartal rhwng y 29 awdurdod hwn, ceir ffigur oddeutu £31,000 fesul awdurdod ym mlwyddyn 1; £59,000 fesul awdurdod ym mlwyddyn 2 a £110,000 fesul awdurdod ym mlwyddyn 3.¹¹⁵

144. Gofynnodd ymgynghoriad y Pwyllgor beth oedd goblygiadau ariannol y Mesur arfaethedig i sefydliadau.

Tystiolaeth y tystion

145. Roedd y mwyafrif o'r tystion a gyflwynodd sylwadau am y goblygiadau ariannol yn gofidio ynglŷn â'r darpariaethau ariannol yn y Mesur arfaethedig ac yn credu mai cyfeirio'r arian a oedd ar gael at wasanaethau'r rheng flaen oedd y peth gorau. Dywedodd Cydffederasiwn GIG Cymru hyn:

¹¹⁵ Memorandwm Esboniadol, paragraffau 8.6, 8.12 ac 8.13.

“money is best directed into front-line services as opposed to co-ordinating a glossy document.”¹¹⁶

146. Cytuno â hyn wnaeth CLILC, gan ddweud:

“At a time when we are drastically cutting allocations to front-line services, we are surprised at the level of money being allocated to this. Other central grants are being cut, both within the NHS and local authorities. We strongly urge the Assembly Government to look again at the funding implications to see whether there is another way of delivering this that does not divert money away from front-line services.”¹¹⁷

147. Dywedodd ABCD:

“This links to the question of what financial implications this Measure will have on other organisations. For example, the authorities involved may have to make significant cuts in other services in order to accommodate the strategies.”¹¹⁸

148. Serch hynny, roedd rhai tystion yn teimlo y gallai buddsoddi mewn strategaeth ar gyfer gofaluwr nwr arbed arian yn y dyfodol. Dywedodd Barnardo’s Cymru:

“...adequate and early support is likely to reduce demand on future health budgets and promote the economic activity of carers.”¹¹⁹

149. Roedd Cynhalwyr Cymru’n rhannu’r farn hon:

“We do not have the expertise to comment meaningfully on the details of the financial implications of the costs outlined. However we believe that, in the medium and longer term, with the demographic changes affecting Wales, the costs of not supporting carers and investing in the sustainability of family support for an increasing elderly population could be devastating.”¹²⁰

150. Yn unol â Rheol Sefydlog 14.2, mae’r Pwyllgor Cyllid wedi ystyried y darpariaethau ariannol a geir yn y Mesur arfaethedig, ac wedi cymryd tystiolaeth gan yr Aelod sy’n gyfrifol amdano. Mae’r

¹¹⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 66, 3 Mawrth 2010

¹¹⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 79, 10 Mawrth 2010

¹¹⁸ CS15, Tystiolaeth Ysgrifenedig

¹¹⁹ CS8, Tystiolaeth Ysgrifenedig

¹²⁰ CS4, Tystiolaeth Ysgrifenedig

Pwyllgor wedi cynhyrchu adroddiad ar wahân ynghylch y darpariaethau hyn.

Tystiolaeth y Dirprwy Weinidog

151. Dywedodd y Dirprwy Weinidog:

“...yr ydym wedi asesu’r costau ar sail strategaeth yr Alban a safbwyntiau’r rhanddeiliaid yr ydym wedi ymgynghori â hwy o ran yr hyn y maent yn ei ddisgwyl o’r strategaeth.”¹²¹

152. O’i holi a fyddai’r arian a fyddai ar gael yn cael ei ddyrannu o gynlluniau sydd eisoes yn bodoli ynteu’n ddyraniad cwbl newydd, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

“Hyd y gwn i, arian newydd yw hwn a nodwyd o fewn cyllideb y Gweinidog dros iechyd [a Gwasanaethau Cymdeithasol].”¹²²

Ein barn ni

Mae’r Pwyllgor wedi nodi’r dystiolaeth a ddarparwyd ac er bod y Pwyllgor yn cefnogi nodau’r Mesur arfaethedig hwn, mae yna bryderon y bydd cyllidebau eraill a gwasanaethau rheng flaen yn cael eu torri er mwyn rhoi nodau’r Mesur arfaethedig hwn ar waith. Mae’r Pwyllgor yn gofyn am sicrwydd y Dirprwy Weinidog bod nodau’r Mesur arfaethedig wedi’u hariannu’n llawn ac na fyddan nhw’n arwain at dorri cyllidebau eraill.

¹²¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 136, 10 Chwefror 2010

¹²² *ibid*, paragraff 151

Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r sesiynau tystiolaeth lafar yn <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-perm-leg/bus-committees-third-lc5-agendas.htm>

10 Chwefror 2010

Gwenda Thomas AM Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau
Cymdeithasol, Llywodraeth Cynulliad
Cymru

24 Chwefror 2010

Keith Towler Comisiynydd Plant Cymru

Joseph Carter Cynghrair Niwrolegol Cymru

Carol Thomas-Wyllie Cymdeithas Clefyd Niwronau Motor

3 Mawrth 2010

Y Dr. Edward
Roberts Bwrdd Iechyd Lleol Abertawe Bro
Morgannwg
(Cydffederasiwn GIG Cymru)

Peter Llewellyn Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda
(Cydffederasiwn GIG Cymru)

Roz Williamson Cynghrair Cynhalwyr Cymru a Cynhalwyr
Cymru

10 Mawrth 2010

Beverlea Frowen Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Tim Ruscoe Barnardo's Cymru

Menna Thomas Barnardo's Cymru

17 Mawrth 2010

Ruth Marks Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Alun Thomas Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Moyna Wilkinson	Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, Cyngor Sir Mynwy
Robert Gatis	Gofal Cymunedol, Rhondda Cynon Taf
Muz Ramzan	Gofalwyr Ifanc Barnardo's
Hannah Spokes	Gofalwyr Ifanc Barnardo's
Richard Andrews	Barnardo's Cymru

29 Ebrill 2010

Gwenda Thomas AC	Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cynulliad Cymru
------------------	---

Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld y dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/bus_legislation_meas-cs/bus_legislation_meas-cs-responses.htm

<i>Enw / sefydliad</i>	<i>Cyfeirnod</i>
Comisiynydd Plant Cymru	CS 1
Cynghrair Niwrolegol Cymru	CS 2
Cyddfederasiwn GIG Cymru	CS 3
Cynhalwyr Cymru a Chynghrair Cynhalwyr Cymru	CS 4
Neil Thomas	CS 5
Linda Parsons	CS 6
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	CS 7
Barnardo's Cymru	CS 8
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru	CS 9
Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru	CS 10
Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro	CS 11
Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr	CS 12
Ymddiriedolaeth y Dywysoges Frenhinol i Ofalwyr a Crossroads Care	CS 13
Jemma England	CS 14
Mynediad ar gyfer Plant Du a Phlant Lleiafrifoedd ag Anableddau a/neu Glefydau Cronig (ABCD) Cymru	CS 15
Stonewall Cymru	CS 16
Plant yng Nghymru	CS 17
Cynghrair Pensiynwyr y Gwasanaeth Sifil	CS 18

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	CS 19
Hafal	CS 20
Gweithredu dros Blant	CS 21
Cyngor ar Bopeth Cymru	CS 22
Age Concern Cymru a Help the Aged yng Nghymru	CS 23
Coleg Brenhinol y Ffisigwyr	CS 24
Iechyd Cyhoeddus Cymru	CS 25
Gweithredu dros Blant	CS 26
Cymdeithas Parlys Ymledol Cymru	CS 27